# CYNGOR CYMUNED MAENTWROG

## Cofnodion Cyfarfod 16/09/2025

Presennol: Heulwen Parry, Rebecca Phasey, Meredydd Williams, Gareth Jones, Eurwyn Jones, Elfed Roberts , Eirian Hoyle

Croesawyd Heledd Parri a Chloe o Grŵp Cynefin i'r cyfarfod i drafod sefyllfa dai yn yr ardal ac i drefnu prynhawn agored yn y Pentref yn mis Hydref.

1. Ymddiheuriadau: Francesca Williams,

2. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gywir: EJ.GJ

2a. Datgan Diddordeb: Dim

3. Materion yn codi o'r cofnodion

3.661 _Cae Chwarae Gellilydan- ymateb wedi dderbyn gan Steffan Jones:

***Yn gyntaf ymddiheuraf nad wyf wedi dod nol atoch ynghynt. Roeddwn ffwrdd diwedd mis Awst a dechrau Medi ac wedi methu eich ebost. Fe gaf yr adroddiad wedi ei anfon atoch ond yn anffodus bydd yn ddiwedd yr wythnos gan fy mod ar hyfforddiant heddiw ac yfory.***

***Mewn perthynas a cynnal y ffens, rwyf wedi ymholi ein Adran Eiddo am arweiniad ond yn anffodus nid ydynt wedi dod yn ôl ataf fell y gallaf weithredu. Sur bynnag, os yw yn disgyn o fewn ein cyfrifoldebau yna sicr byddwn wedi cael sylw i'r mater.***

***Ar dderbyn eu cadarnhau fe ddof yn ôl atoch cyn gynted a phosib.***

3.662 Tir ger Gors Fach / Coed Gors Fach – ER i drefnu cyfarfod gyda A Murray / Grŵp Cynefin.

3.663 Safleoedd Bysiau Maentwrog – Elfed Roberts i i drefnu cyfarfod gyda Gerwyn Jones / Trafnidiaeth i Gymru. Dyddiad i'w anfon ymlaen i'r cynghorwyr.

3.664 Archwiliad Allianz – Clerc wedi cysylltu a'r cwmni 'Sovereign', disgwyl ymateb, (cadw mlaen).

3.665 Van wedi ei barcio wrth yr hên bost - ymateb wedi ei dderbyn gan Iwan Jones Arolygydd Heddlu Gogledd Cymru – ***mi wnâi yrru ymlaen i'r tîm er mwyn iddyn nhw edrych mewn i'r mater. Ni fydd y mater hwn yn cael ei ddelio ar frys ac yn gais a fydd yn cael ei edrych ar pan fydd modd gwneud.***

3.666 Sedd Wâg - hysbysiad wedi ei roi yn y Llafar Bro, dim ddiddordeb wedi'i ddangos.

3.667 Hysbysfyrddau: Gwaith peintio wedi ei wneud.

3.668 Maes carafanau fyny at ffordd Nant y March – clerc wedi cysylltu ac Iwan ap Trefor, ymateb wedi ei dderbyn:

***Diolch yn fawr am eich neges ac am dynnu sylw at y defnydd cynyddol o'r llwybr rhwng y maes carafannau, Nant y March, ac yn ôl i'r pentref.***

***Rydym yn gwerthfawrogi'r pryderon ynglŷn â diogelwch cerddwyr, yn enwedig teuluoedd gyda phlant sy'n defnyddio'r llwybr yn rheolaidd. Fodd bynnag, oherwydd lleoliad y ffordd, ei natur***



H P. 11/11/25

*wledig, a'r cyllideb gyfyngedig sydd ar gael i'r gwasanaeth ar hyn o bryd, nid yw'n bosib cyflwyno unrhyw fesuriadau ffisegol yn y lleoliad hwn.*

*Er hynny, credwn y byddai'n synhwyrol i swyddog fynd allan i'r safle i asesu'r sefyllfa ac ystyried os oes modd gwella neu ychwanegu arwyddion ar y ffordd. Byddai hyn yn helpu i sicrhau bod gyrwyr yn fwy ymwybodol o bresenoldeb cerddwyr ar y llwybr.*

*Byddaf yn trefnu i'r gwaith asesu hwn gael ei wneud, ac yn eich hysbysu o unrhyw gamau pellach y gellir eu cymryd.*

*Diolch eto am gysylltu, ac os oes gennych unrhyw awgrymiadau penodol ynglŷn â lleoliad yr arwyddion neu unrhyw wybodaeth ychwanegol, byddai hynny'n ddefnyddiol iawn.*

3.669 Clerc i gysylltu ac Owain Aeron i dorri gwair cae chwarae Maentwrog, ac i roi dyfynbris am waith atgyweirio i'r ffens.

3.670 Hen Bôst, Gellilydan – ymateb wedi ei dderbyn gan Adrian Williams:

*Nodaf eich sylw. Hoffwn eich hysbysu fod ein Arolygwr wedi ymweld a'r safle wythnos yma ac mae addewid wedi ei roi gan y tirfeddiannwr y bydd y gwrych wedi cael ei dorri yn fuan.*

3.671 Raised Beds - Clwb Celf / Megan o'r Dref Werdd am eu trîn.

3.672 Tir dros ffordd i Tan y Foel – Ymateb wedi ei dderbyn gan Chyfoeth Naturiol Cymru

*Nid ydym yn rhoi adborth unigol ar ein hymateb i adroddiadau am ddigwyddiadau posibl, torri rheoliadau neu weithgarwch troseddol, nac ar ganlyniad y rhain. Mae hyn er mwyn inni allu canolbwyntio ein hadnoddau ar ddarparu gwasanaeth digwyddiadau a rheoleiddio effeithiol a chosteffeithiol, er mwyn amddiffyn yr amgylchedd a phobl Cymru.*

*Rydym yn gwerthfawrogi'r adroddiadau sy'n dod i law yn fawr iawn a hoffem ddiolch i chi am roi o'ch amser i adrodd eich arsylwadau i ni. Mae'r adroddiadau hyn yn hanfodol i'n galluogi i nodi ac ymdrin ag effeithiau digwyddiadau, torri rheoliadau a gweithgarwch troseddol, ac maent yn rhoi gwybodaeth werthfawr i gefnogi ein gwaith o ran atal digwyddiadau, cydymffurfio â rheoliadau a gorfodi.*

Clerc i ail-gysylltu i ofyn am ymateb ddealladwy!

<u>4.Materion i'w Trafod:</u>

4.284 Llygod mawr wrth yr Hên Bôst, Gellilydan – Cwyn eisioes wedi ei roi mewn i Cyngor Gwynedd.

4.285 Gelli Dywyll – Pryderdon ynghylch hen dŷ sy'n ymddangos fel pe bai mewn perygl o gael ei ddymchwel – Clerc I gysylltu a'r Parc a CADW.

4.286 Sûl y Cofio - Edrych ar y safle bythefnos yn gynt a thacluso os bydd angen

4.287 – Torri coed – Gofeb – Agena mis Tachwedd.

<u>5. Ariannol</u>

5.204 Cyfrif Cadw: £228.15

5.205 Cyfrif Cyfredol: £3905.65

Cytunwyd i dalu y canlynol:

5.206 Cyngor Gwynedd - £432.00



HP 11/11/25

5.207 Allianz - £571.01

5.208 Sarah Dafis - £70.00

5.209 Un Llais - £522.50

5.210 Emma Jones - £225.00

5.211 Derbyniwyd daliad o £460 gan Neuadd y Pentref (cais cynllunio). Grant yn cael ei dderbyn i'r cyngor i wella adnoddau cymunedol.

5.212 Penderfynwyd adnewyddu y polisi gyda Allianz.

6. Cynllunio

Dim gwrthwynebiad i'r cais canlynol:

6.769 NP5/73/1Z – Coed Camlyn, Maentwrog – dymchwel sied tanwydd concrid presennol, codi modurdy, codi canllaw gwydyr, ymestyn balconi, a newid ffenestr i ddrysau patio.

6.770 NP5/73/444A – The Old Tannery, Maentwrog – Estyniad tô brig i ddisodli'r estyniad tô fflat presennol.

6.771 NP5/73/440 – Cais i godi tŷ ar wahân sengl,

Clerc i gysylltu nôl – Dim gwrthwynebiad os yw yn dŷ fforddiadwy i berson lleol yn unig.

7. Gohebiaeth

286 Grŵp Rhanddeilliaid Safle Trawsfynydd - Dathlu ugeinmlwyddiant

287 Cyngor Gwynedd – Cronfa Gwynedd Ni

288 Cyngor Gwynedd – Ffordd Dolymoch

289 Cyngor Gwynedd – cau ffordd A470 Amffitheatr Rufeinig Gellilyda

8. Adroddiad o gyfarfodydd eraill

Dim newyddion.

9. Mynwent Dwyryd

9.78 Cyfrif y Fynwent: £22290.84

9.79 Elfed Roberts am drefnu cyfarfod arall gyda Mr a Mrs Rix – (cadw mlaen).

9.80 Lle parcio – Geraint Lewis wedi bod yno. Angen trefnu cyfarfod gyda'r cyngor. ER i adael i'r clerc wybod,

9.81 Adroddiad wedi ei dderbyn gan Meredydd Williams. Angen rhestru'r beddau.

9.82 Clerc i gysylltu â'r cyngor pryd mae claddedigaeth.

Dyddiad Cyfarfod Nesaf

HP 11/11/25

11eg o Dachwedd am 6.30 o'r gloch, Neuadd y Pentref, Gellilydan.

10. Neuadd y Pentref, Gellilydan.

Trafodaeth o ddilyn cyfarfod y cyngor gyda'r ymddiriedolwyr.

H P 11/11/25